

17 Ebrill 2018

Annwyl John,

Y BIL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS (CYMRU)

Rwy'n falch bod y Cynulliad wedi derbyn egwyddorion cyffredinol y Bil Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) ar 21 Mawrth 2018 ac rwy'n ddiolchgar am waith eich Pwyllgor wrth graffu ar y Bil.

Amserlen

Ym mis Medi 2017, ystyriodd y Pwyllgor Busnes yr amserlen ar gyfer y Bil a chytunodd ar 18 Mai 2018 fel terfyn amser dros dro ar gyfer trafodion Cyfnod 2. Fodd bynnag, gan fod angen i'r Llywodraeth gyflwyno penderfyniad ariannol cyn y gellir cynnal trafodion Cyfnod 2 a chyn y gall eich Pwyllgor ystyried gwelliannau, rwyf wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes yn gofyn am estyniad i derfyn amser Cyfnod 2. Mae copi o'r llythyr wedi'i atodi er gwybodaeth i chi a byddaf sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn.

Cynnwys Swyddfa Archwilio Cymru yn Atodlen 3

Efallai y byddwch yn cofio bod Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi awgrymu dileu Swyddfa Archwilio Cymru o Atodlen 3 i'r Bil. Anfonais ateb at yr Archwilydd (a chopi atoch chi) yn dweud, gan fod y Bil wedi'i gyflwyno, mai mater ydoedd i'ch Pwyllgor chi ei ystyried fel rhan o waith craffu Cyfnod 1 ond, pe bai tystiolaeth i gefnogi'r syniad o ddileu Swyddfa Archwilio Cymru, y byddwn yn ystyried cyflwyno



gwelliant. Fodd bynnag, nid oedd sôn am y mater hwn yn yr Adroddiad ar Gyfnod 1.

Er mwyn egluro'r cefndir, nid yw Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i chynnwys ar hyn o bryd yn Neddf Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Ar ôl i'r Pwyllgor Cyllid gynnal ymgynghoriad ynghylch y Bil yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, awgrymodd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (mewn cyflwyniad ar y cyd) y dylid cynnwys Swyddfa Archwilio Cymru ac fe'i hychwanegwyd ar ôl hynny i'r Bil a gyflwynwyd.

Cyn penderfynu a ddylid cyflwyno gwelliant ar y mater hwn, byddwn yn awyddus i glywed a gafodd y mater ei ystyried gan eich Pwyllgor chi fel rhan o drafodaethau Cyfnod 1.

Yn gywir



Simon Thomas AC

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



17 Ebrill 2018

Annwyl Elin,

AMSERLEN Y BIL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS (CYMRU)

Ym mis Medi 2017, ystyriodd y Pwyllgor Busnes yr amserlen ar gyfer y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) a chytunodd ar 18 Mai 2018 fel terfyn amser dros dro ar gyfer trafodion Cyfnod 2.

Cyn i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau allu bwrw ymlaen â thrafodion Cyfnod 2, mae'n rhaid i'r Llywodraeth gyflwyno penderfyniad ariannol cyn dechrau trafodion Cyfnod 2. Mae Rheol Sefydlog 26.74(i) yn ei gwneud yn ofynnol i benderfyniad ariannol gael ei gyflwyno o fewn chwe mis i gwblhau Cyfnod 1. Derbyniodd y Cynulliad egwyddorion cyffredinol y Bil ar 21 Mawrth 2018 ac felly'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r penderfyniad ariannol yw 21 Medi 2018.

Ar sail hynny, efallai y bydd angen ymestyn y terfyn amser dros dro ar gyfer trafodion Cyfnod 2 a gytunwyd gan y Pwyllgor Busnes. Bydd angen i mi drafod ymhellach ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid er mwyn cadarnhau faint o waith ychwanegol sydd angen ei wneud er mwyn bodloni'r Llywodraeth fel ei bod yn barod i gyflwyno penderfyniad ariannol.

Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i awgrymu amserlen newydd arfaethedig yn dilyn y trafodaethau hynny. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at John Griffiths, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, oherwydd y bydd newid yr amserlen hon yn effeithio ar waith ar y Pwyllgor hwnnw.

Yn gywir



Simon Thomas

Simon Thomas AC

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Atodiad

Amserlen ddrafft – Y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

CARREG FILLTIR	DYDDIAD
1. Cyflwyno'r Bil	Dydd Llun 2 Hydref 2017
2. Terfyn amser ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1 y Pwyllgor ¹	Dydd Gwener 9 Mawrth 2018
3. Diwedd Cyfnod 1 – Dadl yn y Cyfarfod Llawn ar yr egwyddorion cyffredinol a chynnig ar benderfyniad ariannol (os bydd angen)	Dydd Mercher 21 Mawrth 2018
4. Dechrau Cyfnod 2 ²	Dydd Iau 22 Mawrth 2018
5. Y dyddiad cynharaf posibl ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 2 gan Bwyllgor ³	Dydd Llun 16 Ebrill 2018
6. Diwedd Cyfnod 2 – terfyn amser ar gyfer y Pwyllgor sy'n ymdrin â Chyfnod 2 ⁴	Dydd Gwener 11 Mai 2018
7. Dechrau Cyfnod 3 ⁵	Dydd Llun 14 Mai 2018
8. Y dyddiad cynharaf posibl ar gyfer	Dydd Mawrth 5

¹Mae hyn yn caniatáu 18 wythnos eistedd ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1 y Pwyllgor, gan ganiatáu amser ar gyfer: toriad hanner tymor yr hydref (30 Hydref 2017 – 5 Tachwedd 2017); toriad y Nadolig (18 Rhagfyr – 7 Ionawr 2018); a thoriad hanner tymor y gwanwyn (*sydd wedi'i bennu dros dro ar 19 Chwefror 2018 – 25 Chwefror 2018*).

² Mae Cyfnod 2 yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i Gyfnod 1 ddod i ben.

³ Rhaid i 15 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio rhwng dechrau Cyfnod 2 a chyfarfod cyntaf y Pwyllgor, gan ystyried Dydd Gwener y Groglith ar 30 Mawrth 2018 a Dydd Llun y Pasg ar 2 Ebrill 2018.

⁴ Neilltuwyd pedwar cyfarfod posibl i'r Pwyllgor gynnal trafodion Cyfnod 2.

⁵ Mae Cyfnod 3 yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i Gyfnod 2 ddod i ben.



ystyriaeth fanwl gan y Cynulliad ⁶	Mehefin 2018
9. Cyfnod 3 yn y Cyfarfod Llawn	Dydd Mercher 13 Mehefin 2018
10. Cyfnod 4 yn y Cyfarfod Llawn	I'w gyhoeddi
11. Cydsyniad Brenhinol	I'w gyhoeddi

⁶Rhaid i 15 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio rhwng dechrau Cyfnod 3 a dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad sy'n ystyried trafodion Cyfnod 3. Rhaid cofio am ŵyl banc y Sulgwyn ar 28 Mai 2018.

